



Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

### Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Dyddiad cyhoeddi: **6 Gorffennaf 2015**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **18 Rhagfyr 2015**

# Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

- Trosolwg** Mae'r ymgynghoriad hwn yn holi barn rhanddeiliaid ar Fil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) Llywodraeth Cymru. Mae'r Bil drafft yn amlinellu cynigion ar gyfer system ddeddfwriaethol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc 0–25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai'r system newydd yn disodli'r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch anghenion addysgol arbennig ac asesu plant a phobl ifanc sydd ag anawsterau a/neu anabledau dysgu mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.
- Sut i ymateb** Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **18 Rhagfyr 2015** fan hwyraf.
- Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.  
Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn [www.llyw.cymru/ymgyngoriadau](http://www.llyw.cymru/ymgyngoriadau)
- Manylion cysylltu** I gael rhagor o wybodaeth:  
Y Gangen Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol  
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr  
Yr Adran Addysg a Sgiliau  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
e-bost: [SENReforms@cymru.gsi.gov.uk](mailto:SENReforms@cymru.gsi.gov.uk)  
Ffôn: 029 2082 6015

**Diogelu data** Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## **Cynnwys**

|                                                            |          |
|------------------------------------------------------------|----------|
| <b>Rhagair gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau</b>            | <b>2</b> |
| <b>Cyflwyniad – ymgynghoriad am beth yw hwn?</b>           | <b>4</b> |
| <b>Cyd-destun – ein hagenda i ddiwygio'r system addysg</b> | <b>5</b> |

## Rhagair gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Mae 'Cymwys am Oes' yn amlinellu ein cynlluniau i sicrhau bod pob dysgwr yn elwa ar addysgu a dysgu rhagorol. Mae'n disgrifio ein gweledigaeth ar gyfer dysgwyr yng Nghymru, i roi addysg iddynt sy'n eu hysbrydoli i lwyddo, mewn cymuned addysg sy'n cydweithredu ac yn anelu at fod yn wych, lle mae potensial pob plentyn a pherson ifanc yn cael ei ddatblygu.

Mae'r system bresennol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig yn seiliedig ar fodel a gyflwynwyd dros 30 o flynyddoedd yn ôl. Nid yw'r model hwn bellach yn addas i'w ddiben. Mae'r dystiolaeth yn disgrifio proses asesu sy'n aneffeithlon, yn fiwrocrataidd, yn gostus ac nad yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar y plentyn nac yn ddigon syml i'w defnyddio. At hyn, mae yna annhegwch cynhenid o ran y diogelwch statudol a roddir i ddysgwyr sydd ag anghenion gwahanol, ac nid oes dilyniant yn y cymorth a roddir i ddysgwyr mewn ysgolion a dysgwyr mewn addysg bellach.

Roedd y cynigion diwygio yn ein Papur Gwyn yn 2014, '*Cynigion Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol*' yn ymgais i fynd i'r afael â'r materion hyn. Roedd yna gefnogaeth gref iddynt ymhlith y rheini oedd yn gweithio gyda dysgwyr a ymatebodd i'r Papur Gwyn, ac ers hynny rydym wedi bod yn datblygu'r cynigion deddfwriaethol manwl fel sail i system gymorth newydd ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Erbyn hyn rydym wedi cwblhau'r gwaith hwnnw, ac mae Bil drafft gennym sy'n nodi ein cynigion ac yn creu fframwaith deddfwriaethol newydd.

Os ydym am sicrhau newid gwirioneddol a gwelliant gwirioneddol i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, mae'n hollbwysig ein bod yn cydweithio â'r proffesiwn yn hytrach na'i orfodi arnynt. Rwyf am weld mwy na chydymffurfio â'r deddfwriaeth yn unig. Mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol ein hysgolion edrych ar anghenion dysgwyr mewn ffordd holistaidd a mynd ati i'w bodloni gyda brwdfrydedd, nid dim ond gwneud yr hyn sy'n gyfreithiol ofynnol.

Er mwyn cyflawni hynny, mae angen trafodaeth mor drylwyr â phosibl ynghylch ein cynlluniau ar gyfer deddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, i sicrhau bod y proffesiwn yn arddel y diwygiadau.

I'r perwyl hwn, rwy'n cyhoeddi fersiwn ddrafft o'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) er mwyn i randdeiliaid, o fewn y proffesiwn a'r tu allan iddo, roi eu sylwadau ac ymateb i'r cynigion deddfwriaethol manwl cyn iddynt gael eu cyflwyno ar gyfer proses graffu ffurfiol y Cynulliad. Mae angen cynnal y drafodaeth fwyaf trylwyr bosibl er mwyn i weithwyr y proffesiwn deimlo'u bod yn arddel y diwygiadau a wneir yn ei sgil. O sicrhau hynny, bydd y diwygiadau yn llawer mwy tebygol o weithio er mwyn ein dysgwyr.

Bydd adborth rhanddeiliaid yn sail i waith pellach i greu fersiwn derfynol o'r Bil, cyn ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol. Hoffwn i hyn ddigwydd cyn gynted â phosibl yn nhymor nesaf y Cynulliad.

Rwy'n croesawu eich sylwadau.

A handwritten signature in cursive script, appearing to read 'Huw Lewis'.

Huw Lewis AC  
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

## Cyflwyniad – ymgynghoriad am beth yw hwn?

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar Fil drafft sy'n cynnig fframwaith statudol newydd er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Byddai hyn yn disodli'r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch anghenion addysgol arbennig (AAA) ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anabledau dysgu sydd mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn holi eich barn ynghylch a yw'r Bil drafft yn cyflawni bwriad y polisi fel y'i nodir yn y Memorandwm Esboniadol drafft. Dylid ei darllen, felly, ochr yn ochr â'r Bil drafft yn ogystal â'r Memorandwm Esboniadol drafft, y Nodiadau Esboniadol drafft a'r asesiadau perthnasol o effaith sydd hefyd yn cael eu cyhoeddi.

At hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi drafft cychwynnol o God ADY yn yr hydref 2015 er mwyn ategu'r ymgynghoriad ac yn unol â'i hymrwymiad blaenorol i lunio Cod ADY drafft cynnar ar gyfer aelodau o Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol o fewn yr un amserlen. Pan fydd yn weithredol, bydd y Cod yn ddogfen hollbwysig i bawb sy'n ymwneud ag ADY. Efallai y bydd y rheini sy'n ystyried ymateb i'r ymgynghoriad hwn, felly, am ystyried y Cod drafft hwnnw yn gyntaf.

Mae Llywodraeth Cymru yn hyderus bod y Bil drafft yn cyflwyno fframwaith deddfwriaethol cadarn a chydlynol ar gyfer y gwaith o gynllunio a darparu cymorth i blant a phobl ifanc ag ADY yn y dyfodol. Mae wedi'i ddatblygu ar sail proses ymgysylltu ac ymgynghori helaeth â rhanddeiliaid dros gyfnod hir iawn, ac mae ynddo lawer sy'n arloesol ac sydd â'r potensial i sicrhau manteision sylweddol i ddysgwyr.

Serch hynny, rydym yn cydnabod y gallai fod o fudd i roi mwy o fanylion yn y Bil ynghylch plant sy'n derbyn gofal. Rydym yn bwriadu gwneud hynny unwaith y bydd is-ddeddfwriaeth berthnasol sy'n deillio o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wedi'i chwblhau'n derfynol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau bod safbwyntiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed fel rhan o'r ymgynghoriad hwn drwy drefnu digwyddiadau ymgysylltu iddyn nhw'n benodol yn ystod yr hydref.

## Cyd-destun – ein hagenda i ddiwygio'r system addysg

Yn y bôn, bydd gweithredu'r Bil drafft yn llwyddiannus yn dibynnu ar ein gweithlu, eu sgiliau a'u gallu. O'r herwydd, ni ellir ystyried ein cynigion i ddiwygio'r system ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ar wahân i elfennau eraill cysylltiedig. Maent yn rhan annatod o'n hagenda ddiwygio ehangach, ac mae'n rhaid cofio hynny wrth ystyried y darpariaethau a gynigir.

Roedd Cymwys am Oes yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer system addysg lle mae pob plentyn a pherson yn elwa ar addysgu a dysgu rhagorol, a lle mae eu potensial yn cael ei ddatblygu. Mae Cymru ar daith i sicrhau addysg gwbl gynhwysol; mae ein her i wella yn ymwneud â phob plentyn ym mhob dosbarth. Mae diwygio ADY yn elfen allweddol o'r daith honno; bydd hynny, ynghyd â diwygio'r cwricwlwm a datblygu'r gweithlu, yn creu system sy'n helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial drwy broses gwbl gynhwysol.

Mae'r weledigaeth a fynegwyd gan yr Athro Graham Donaldson yn ei adolygiad *Dyfodol Llwyddiannus*<sup>1</sup> a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015, yn ei gwneud yn glir y dylai cynhwysiant fod yn ganolog i'r cwricwlwm newydd a'r trefniadau asesu. Mae'n gosod sylfeini cadarn ar gyfer cwricwlwm a threfniadau asesu newydd sy'n wirioneddol ac yn gwbl gynhwysol, lle bydd pob plentyn a pherson ifanc yn datblygu ar hyd yr un continwum, beth bynnag yw eu ADY. Mae system o'r fath yn cydnabod pwysigrwydd dulliau sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr ac asesiadau gan athrawon sy'n cefnogi anghenion dysgu pob dysgwr.

Yn *Y Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg*<sup>2</sup>, a gyhoeddwyd ym Mawrth 2015, amlinellir ein cynlluniau i ddatblygu'r rheini sy'n gweithio mewn ysgolion yn broffesiynol. Nod y Fargen Newydd yw cefnogi athrawon, arweinwyr a staff cymorth â'u datblygiad proffesiynol gydol eu gyrfaedd, ac mae'n rhoi pwyslais ar wella gallu athrawon ac ysgolion i fodloni'n well anghenion dysgu pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag ADY.

Yn ogystal â'r Fargen Newydd, mae *Addysgu Athrawon Yfory*<sup>3</sup> a luniwyd gan yr Athro John Furlong, yn nodi'n glir nad oes modd gwadu'r angen i ddiwygio hyfforddiant athrawon yng Nghymru er mwyn codi safonau a gwireddu ein rhaglen ddiwygio uchelgeisiol.

Er mwyn i'n diwygiadau lwyddo, mae'n rhaid i'r gweithlu groesawu'r ethos newydd sy'n canolbwyntio ar y plentyn a'r person ifanc. Dyma swm a sylwedd yr hyn rydym yn ceisio ei wneud. A hyn mewn golwg, cyn mynd ati i ddeddfu, rydym yn ceisio meithrin capasiti'r gweithlu a'i ddatblygu er mwyn gallu bodloni anghenion pob dysgwr yn well, gan gynnwys y rheini ag AAA/AAD. Yn

---

<sup>1</sup> <http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculumwales/curriculum-for-wales/?skip=1&lang=cy>

<sup>2</sup> <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/newdealeducation/?skip=1&lang=cy>

<sup>3</sup> <http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreviews/teaching-tomorrows-teachers/?skip=1&lang=cy>

ddiweddar, cyhoeddwyd '*Asesiad o ofynion datblygu'r gweithlu anghenion addysgol arbennig (AAA)*'<sup>4</sup> ac rydym nawr yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu'r cymorth sydd ei angen er mwyn bodloni'r anghenion a nodir o ran datblygu'r gweithlu.

Rydym hefyd yn datblygu adnoddau i gefnogi'r arfer o ganolbwyntio'n gyson ar y plentyn a'r person ifanc yn achos y rheini ag AAA, ac rydym yn gweithio gyda llywodraeth leol i gytuno ar y ffordd orau o sefydlu'r arfer hwn, a fyddai'n helpu i roi ar waith y broses gynllunio a nodir yn y Bil drafft.

---

<sup>4</sup> <http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/reports/an-assessment-of-special-educational-needs-workforce-development-requirements/?skip=1&lang=cy>